



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**8 MAWRTH 2017**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol / Cadeirydd y Bwrdd

Rheoli GwE

**Pwnc:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020

---

### **1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno'r drafft o flaenoriaethau'r Cynllun Busnes 2017-2020 i'r Cyd-bwyllgor i'w cymeradwyo.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Noda blaenoriaethau'r Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant 3 blynedd ar draws y rhanbarth.

### **3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynhyrchwyd y blaenoriaethau cynllun busnes diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol sy'n wynebu'r rhanbarth.

3.2 Yn dilyn arolwg Estyn ym mis Ebrill 2016, ymgorfforwyd y cynllun gweithredu ôl-arolwg yn y cynllun busnes er mwyn sicrhau bod y ddau gynllun wedi'u cydlynu'n effeithiol.

3.3 Datblygwyd Fframwaith Cynllunio Busnes GwE (atodiad 9.2) er mwyn sicrhau eglurder a chydlyniant strategol wrth gyflwyno'r blaenoriaethau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

3.4 Noda blaenoriaethau'r Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 y blaenoriaethau ar draws y

---

rhanbarth. Y blaenoriaethau hyn yw'r rhai ar Lefel 1 o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes newydd a'r Rheolwyr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â'r cyfrifoldeb dros gyflwyno fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n atebol ar gyfer cyflwyno yn erbyn y blaenoriaethau.

3.5 Eistedda'r cynlluniau blynyddol lefel 2 a 3 o dan y cynllun lefel 1 a rhoddant fwy o wybodaeth fanwl o ran blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Darpara'r cynlluniau lefel 2 a 3 fanylion ynghylch y camau gweithredu i'w gweithredu a'r allbynnau a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes lefel 3 yn sicrhau atebolrwydd am gyflawni ac yn darparu'r strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Caiff cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes barhau i gael ei adrodd arno yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2017-2020.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y blaenoriaethau.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes 2017-2020(Drafft)

9.2 Fframwaith Cynllunio Busnes

**Y Swyddog Monitro:**

Rhoddaf sylwadau ar lafar yn y cyfafod

**Y Swyddog Cyllid Statudol**

Deallaf fod unrhyw ymhlygiadau ariannol o'r Cynllun Busnes i'w ariannu o adnoddau presennol a/neu grantiau penodol. Er hynny, derbyniodd y Cyd-Bwyllgor her i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd parhaol gwerth £131,967 yn 2016/17, a nodaf fod dal angen cyflwyno / cytuno strategaeth ar gyfer gweithredu'r arbediad yn barhaol. Oherwydd hynny, ni ellid ystyried / asesu ardrawiad gweithredu'r arbediad ar y cynllun busnes ger bron.